



MANYLEB ASEINIAD AC ADBORTH

CANOLFAN ADDYSG ATHRAWON DE-ORLLEWIN CYMRU

Dylai'r adrannau sydd â \* gael eu cwblhau gan yr arweinydd modwl

|                                                                |                                                                                                                               |                                                |          |
|----------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------|----------|
| Enw'r Myfyriwr:                                                | Harri John Edwards                                                                                                            | Rhif P y myfyriwr:                             | 1702990  |
| Rhaglen:*                                                      | TAR Cynradd                                                                                                                   |                                                |          |
| Modwl:*                                                        | Yr Athro Ymholgar                                                                                                             | Lefel y Modwl (6 neu 7):*                      | 7        |
| Cod y modwl:*                                                  | M7X2152C                                                                                                                      | Cyfraniad at Asesiad Cyffredinol y Modwl (%):* | 100%     |
| Arweinydd modwl:*                                              | Catherine Morgan                                                                                                              |                                                |          |
| Teitl yr Aseiniad:                                             | Ysgrifennwch draethawd beirniadol a dadansoddol sy'n trafod eich ymchwil 'astudiaeth gwers' mewn perthynas â'ch maes dewisol. | Rhif yr Aseiniad (x o x):*                     | 1/1      |
| Dyddiad cychwyn:*                                              | 09/01/18                                                                                                                      | Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno:*                | 16/04/18 |
| Dyddiad dychwelyd y marciau dros dro ac adborth ysgrifenedig:* |                                                                                                                               | Nifer o eiriau:                                | 6095     |

|                                                                                                        |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |          |          |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------|----------|
| Cyfeirnod:                                                                                             | Ym mhrif ran eich gwaith, mae'n rhaid i chi gydnabod awduron y mae eu hymchwil yn sail i'ch gwaith. Dylech atodi rhestr gyfeirnod i'ch gwaith sy'n dangos y llyfrau, erthyglau ayyb, rydych chi wedi'u darllen neu eu dyfynnu er mwyn cwblhau'r aseiniad hwn ( e.e. ar gyfer llyfrau: cyfenw'r awdur a'i lythrennau cyntaf, blwyddyn cyhoeddi, teitl y llyfr, argraffiad, cyhoeddwr: man cyhoeddi).                                                                                  |          |          |
| Cyflwyno:                                                                                              | Rhaid cyflwyno pob aseiniad gan ddefnyddio Turnitin, heblaw bod y darlithydd yn dweud yn wahanol.<br>Sylwer: y fersiwn Turnitin yw'r prif gyflwyniad ac mae'n gweithredu fel derbynneb i'r myfyriwr.<br>Bydd cyflwyno'r fersiwn electronig o'r aseiniad yn hwyr yn arwain at ddyfarnu marc gosb hwyr<br>Cosbau ar gyfer cyflwyniadau hwyr: Hyd at un wythnos yn hwyr, uchafswm o radd D. Mwy nag wythnos yn hwyr, Cyfeirio. Dim ond y Panel Amgylchiadau Esgusodol all roi estyniad. | Dyddiad: | 16/04/18 |
| Dylai'r arweinydd modwl roi dic yma i ddangos a oes rhaid cyflwyno copi caled o'r aseiniad neu beidio. |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |          | IE       |
|                                                                                                        |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |          | NA ✓     |

MEINI PRAWF AC ADBORTH MYFYRWYR

Mae’r adran hon yn rhoi manylion y meini prawf asesu. Y *graddau* y byddwch yn arddangos y rhain sy’n pennu eich gradd. Dangosir y pwysiad sydd ar gael ar gyfer pob maen prawf. Bydd darlithwyr yn defnyddio’r lle a ddarperir i roi sylwadau ar gyflawniad y dasg/tasgau, gan gynnwys y meysydd hynny rydych wedi gwneud yn dda ynddynt a’r meysydd a fyddai’n elwa o gael eu datblygu/gwella.

| Meini Prawf Asesu Cyffredin a Ddefnyddiwyd                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |  | Y radd a ddyfarnwyd |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|---------------------|
| <b>1. Gwybodaeth a Dealltwriaeth o’r Pwnc (gan gynnwys llenyddiaeth sydd wedi’i seilio ar ymchwil a gwybodaeth a dealltwriaeth o’r pwnc)</b><br>Ehangder y gwaith ymchwil a/neu eich gwaith darllen eich hun, dethol adnoddau credadwy, defnyddio arferion cyfeirnodol priodol. Ehangder y wybodaeth a dealltwriaeth o’r cysyniadau a’r egwyddorion sy’n sail i ac yn gysylltiedig â’r ddisgyblaeth. |  |                     |
|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |  |                     |
| <b>2. Sgiliau Deallusol (Dadansoddiad)</b><br>Dadansoddiad, gwerthusiad a synthesis; rhesymeg, dadl a phenderfyniadau; adfyfrio dadansoddiol; trefn syniadau a thystiolaeth.                                                                                                                                                                                                                         |  |                     |
|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |  |                     |
| <b>3. Cymwysiadau Pedagogaid a Phroffesiynol (Cymhwysiad a Defnydd Ymarferol)</b><br>Defnydd o ddulliau addysgol, deunyddiau, offer a thechnegau; cymhwyso cysyniadau; llunio datrysiadau arloesol a chreadigol i ddatrys problemau. Priodoleddau arfer proffesiynol: gweithio fel unigolyn neu yn gydweithredol.                                                                                    |  |                     |
|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |  |                     |
| <b>4. Sgiliau Trosglwyddadwy Allweddol</b><br>Defnydd o gyfryngau priodol; cyflwyno a threfnu.                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |  |                     |
|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |  |                     |

|                                                                                                                                                                                                            |                                                                |              |  |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------|--------------|--|
| <b>Marc yr Aseiniad</b> (Mae marciau’r asesiadau’n amodol ar gadarnhad y Bwrdd Arholi. Diben y sylwadau a’r graddau hyn yw rhoi adborth ar waith modwl a rhoi arweiniad yn unig, nes y cânt eu cadarnhau.) | <b>Cosbau Cyflwyno’n Hwyr (rhowch dic os ydy’n berthnasol)</b> |              |  |
|                                                                                                                                                                                                            | Hyd at un wythnos yn hwyr                                      | D (uchafswm) |  |
|                                                                                                                                                                                                            | Mwy nag un wythnos yn hwyr                                     | Methu        |  |

Ffurflen Hunanwerthuso Myfyriwr

Mae’r adran hon yn ailadrodd yn gryno'r meini prawf asesu cyffredin sydd ar y tudalennau blaenorol. Y *graddau* y byddwch yn arddangos y rhain sy’n pennu eich marc. Gan ddefnyddio’r meini prawf hyn, ticiwch y blwch sy’n dangos orau lefel y cyrhaeddiad rydych chi’n teimlo i chi ei gyflawni mewn perthynas â phob un ohonynt.

| Meini Prawf Asesu<br>Cyffredin a<br>Ddefnyddiwyd                                                                                                                                                                                                                                                                                | CYFEIRIO                 |                          | D                        | C                                                                                                                      | B                        | A                        |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------|--------------------------|--------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------|--------------------------|
|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 | METHU’N<br>LLWYR         | ANFODDHA<br>OL           | BODDHAOL                 | DA                                                                                                                     | DA IAWN                  | RHAGOROL                 |
| 1. Gwybodaeth<br>a Dealltwriaeth<br>o’r Pwnc (gan<br>gynnwys llenyddiaeth<br>sydd wedi’i seilio ar<br>ymchwil a<br>gwybodaeth a<br>dealltwriaeth o’r<br>pwnc)                                                                                                                                                                   | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/>                                                                                    | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> |
| 2. Sgiliau<br>Deallusol<br>(Dadansoddiad)                                                                                                                                                                                                                                                                                       | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/>                                                                                    | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> |
| 3. Cymwysiadau<br>Pedagogaid a<br>Phroffesiynol<br>(Cymhwysiad a<br>Defnydd<br>Ymarferol)                                                                                                                                                                                                                                       | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/>                                                                                    | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> |
| 4. Sgiliau<br>Trosglwyddadwy<br>Allweddol                                                                                                                                                                                                                                                                                       | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/>                                                                                    | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> |
| RHOWCH SYLWADAU AR FEYSYDD RYDYCH CHI’N<br>TEIMLO EICH BOD WEDI PERFFORMIO’N DDA<br>YNDYNT                                                                                                                                                                                                                                      |                          |                          |                          | RHOWCH SYLWADAU AR FEYSYDD RYDYCH<br>CHI’N TEIMLO BOD ARNOCH ANGEN EU<br>DATBLYGU                                      |                          |                          |
| Teimlaf fod safon fy iaith a sgiliau trosglwyddadwy allweddol<br>wedi gwella ers cwblhau'r aseiniadau cyntaf.<br><br>Edrychais i ystod o lenyddiaeth yn ystod fy ymchwiliad i<br>gryfhau fy ngwybodaeth a dealltwriaeth o’r pwnc yn effeithiol<br>yn ystod yr aseiniad a dadansoddi cryfderau ac anawsterau’r<br>wrth werthuso. |                          |                          |                          | Wrth ddatblygu fy ngwaith, credaf fod angen gwela fy<br>sgiliau adfyfrio i drafod gwaith yn fwy manwl yn y<br>dyfodol. |                          |                          |

|                    |                    |         |          |
|--------------------|--------------------|---------|----------|
| Enw’r myfyriwr     | Harri John Edwards | Dyddiad | 15.04.18 |
| Llofnod y Myfyriwr | H. Edwards         |         |          |

## **Sut allwn ni wella ymrwymiad dysgwyr ar dasg trwy osod targedau amser pendant i'w gwblhau?**

### **Nod, ffocws a phwrpas yr ymchwiliad**

Pwrpas yr ymchwiliad i'w i ymchwilio i'r posibilrwydd o ymrwymiad dysgwyr yn cael ei wella ar dasgau trwy osod targedau amser gweledol pendant. Wrth adlewyrchu ar fy nghyfnod cyntaf o brofiad addysgu proffesiynol sylweddolais fod dysgwyr penodol yn trafferthu i gwblhau tasgau yn ystod sesiynau. Ymchwiliais i ystod o strategaethau i geisio gwella hyn gan arbenigwyr megis Skinner a Belmont (1991) ar gyfer fy nosbarth i sicrhau gwelliant yn eu haddysg. Amcanaf trwy osod targedau amser gweledol i gwblhau tasgau pendant gall disgyblion fod yn llwyddiannus i gyrraedd nod y wers a chwblhau tasgau a osodwyd gan yr athro neu athrawes yn rheolaidd.

### **Cyd-destun yr ymchwiliad**

Trafodais gyda fy mhartner ein prif rwystrau addysgu ar ôl ein profiad addysgu proffesiynol cyntaf. Penderfynom ganolbwyntio ar geisio gwella ymrwymiad dysgwyr a thrafodom ystod o strategaethau gallwn gyflwyno i ein haddysgu i geisio gwella'r pryderon yma. O ganlyniad i'n trafodaeth, lluniwyd cwestiwn ymchwiliad, 'Sut allwn ni wella ymrwymiad dysgwyr ar dasg trwy osod targedau amser pendant i'w gwblhau?' gyda'r bwriad o ymchwilio i ddefnydd o dargedau amser pendant wrth gwblhau tasgau.

Gan ystyried yr hyn sydd wedi'i ysgrifennu gan arbenigwyr, yw wyf am ddarganfod a ydy gosod targedau amser pendant ar dasg yn fanteisiol i'r disgyblion. Trwy gynnal gwrs sydd yn rhoi terfynau amser clir a disgwyliadau i'r disgyblion yr wyf am geisio ateb y cwestiynau canlynol:

1. A ydy gosod targedau amser i gwblhau gweithgaredd yn annog dysgwyr neu beidio?
2. A oes gwahaniaeth agwedd rhwng dysgwyr o wahanol allu i'r targedau amser?

Cynhaliwyd yr ymchwiliad mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg pentrefol yn ardal Cwm Gwendraeth, Sir Gaerfyrddin. Yn ystod yr ymchwil byddaf yn cyfeirio at yr ysgolion fel 'Ysgol 1' ac 'Ysgol 2' oherwydd ystyriaethau moesegol ac i gadw'r ysgolion yn anhysbys.

Mynychir tua 130 o ddisgyblion yn Ysgol 1. Daw 13% o'r disgyblion o gartrefi ble siaredir Cymraeg yw prif iaith yr aelwyd (ESTYN, 2013). Derbynnir 27% o ddisgyblion prydau ysgol am ddim sydd yn uwch na lefelau'r sir a chenedl (ESTYN, 2013). Yn ogystal, mae 39% o'r disgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol (ESTYN, 2013).

Mynychir tua 108 o ddisgyblion yn Ysgol 2. Daw 42% o'r disgyblion o gartrefi ble siaredir Cymraeg yw prif iaith yr aelwyd (ESTYN, 2012). Caiff 15% o'r disgyblion prydau ysgol am ddim. Yn ychwanegol, mae 20% o'r disgyblion yn derbyn cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol.

### **Trosolwg byr o lenyddiaeth berthnasol**

Edrychais ymhellach ar osod targedau pendant clir i'r dysgwyr yn ogystal â'r strategaeth amser ar dasg drwy ddarllen llyfrau, erthyglau, dogfennau llywodraeth a deunyddiau eraill ar-lein. Dyweda Merrell a Tymms (2012) trwy dorri tasg yn gamau hawdd a gall gael eu cyflwyno un cam ar y tro, gall hwn wneud y dasg gyflawn yn haws i'w gwblhau. Cefnoga Johnson (2013) bod gosod targedau amser a'u gwneud yn weledol i blant yn helpu'r dysgwyr a'r athro i gwblhau tasgau yn fwy effeithiol. Yn ogystal, noda Skinner a Belmont (1991) pwysigrwydd o osod disgwyliadau clir i'r dosbarth sydd yn galluogi i'r disgyblion deall y meini prawf llwyddiant yn effeithiol. Awgryma Dev (1997) trwy osod targedau synhwyrol i bob disgybl gall y teimlad o lwyddiant ysgogi'r unigolion i ddatblygu eu dealltwriaeth.

Honna Winstanley *et al* (2010) bod disgyblion sy'n adrodd boddhad yn eu haddysg yn trafod pwysigrwydd athrawon yn herio'n briodol. Cefnoga Wallace *et al* (2007) os ydy'r addysgwyr wedi bod yn llwyddiannus gan herio'r dysgwyr wrth ddefnyddio strategaethau megis amserau pendant i gwblhau tasgau o ganlyniad bydd yr addysgu yn fwy effeithiol. Awgryma Winstanley *et al* (2004) mai yn allweddol i herio a darparu

profiadau newydd i ddysgwyr i sicrhau eu bod yn llwyddiannus yn ogystal â monitro lefelau o'r heriau a ddarparwyd.

Awgryma Dean (2000) mai darparu strwythur clir gan egluro pwrpas y dasg yn allweddol i addysgu'n effeithiol. Cefnoga Cowley (2010) mai addysgu effeithiol o ganlyniad i osod targedau clir i'r dysgwyr yn gyfyngiadau amser penodol. Amlinella Cowley (2010) trwy dangos awgrymiadau gweledol mae'n creu ymdeimlad o gyflymder a brys yn y dosbarth.

Dadleua Muijs a Reynolds (2011) mai strategaeth osod targedau pendant i gwblhau tasgau yn dibynnu ar ansawdd rheolaeth ddosbarth a rheoli ymddygiad. Haera Lemlech (1988) mai rheolaeth ddosbarth effeithiol yn allweddol i sicrhau bod y gweithgareddau'n cyfnewid yn llyfn. Awgryma Muijs *et al* (2004) mai ymddygiad gwael dysgwyr o ganlyniad i addysgu aneffeithiol a drwy ddefnyddio strategaethau sydd yn herio'r dysgwyr megis gosod targedau amser pendant yn ffordd effeithiol o wella ymddygiad yn yr ysgol.

Gall defnydd o amserydd yn y dosbarth cael effaith cadarnhaol ar ddisgyblion gydag anghenion addysgol arbennig (AAA). Cynhaliwyd gwaith ymchwil gan Kring *et al* (2013) ar effaith addysgu gan osod tasgau byr gyda amser penodol i'w gwblhau ar ddisgyblion sydd ag ADCG (Anhwylder diffyg canolbwytio a gorfywiogrwydd). Dengys King *et al* (2013) mai disgyblion gyda ADCG yn cynhyrchu canlyniadau cadarnhaol wrth weithio ar dasgau byr gydag adborth cyson. Cefnoga O'Reagan (2010) mai'n allweddol i ddarparu tasgau byr gyda amser penodol i'w gwblhau gan rhoi adborth cyson i sicrhau llwyddiant i ddysgwyr sydd ag ADCG.

Defnyddir y strategaeth o osod targedau amser pendant i gwblhau tasgau gan Wilson (2016) i wella ymrwymiad bechgyn yn y dosbarth. Awgryma Wilson (2016) ystod o strategaethau i wella ymrwymiad bechgyn ac un strategaeth benodol oedd gosod meini prawf llwyddiant clir yn ogystal ag amserau penodol i gwblhau tasgau. Mae Wilson (2016) wedi gweld llwyddiant yn dros 300 o ysgolion yn y Deyrnas Unedig a dadleua Wilson (2016) wrth ganolbwytio ar addysgu bechgyn a cheisio gwella eu datblygiad a ydy'r merched mynd i ddioddef? Atebwyd trwy ddweud mai meddwl blêr

oedd yr hyn. Gwelir o'i waith bod cyraeddiadau disgyblion yr ysgol ar y cyfan wedi gwella wrth i strategaethau Wilson cael eu cyflwyno.

Fodd bynnag, mae'n bwysig i ystyried os ydy'r dechneg o osod amserau pendant i gwblhau tasg yn anafateisiol i ddisgyblion. Dyweda Senechal (2014) bod amser meddwl disgyblion yn unigryw ac mae'n bwysig i ddim gorbwyso ar dargedau amser. Gofynna Senechal (2014) os ydy plentyn sydd ddim ar dasg yn ysgrifennu a ydynt wedi ymddieithrio? Creda Senechal (2014) mai yn allweddol i blant cael amser meddwl yn hytrach nag weithio tuag at dargedau amser yn unig.

Yn ychwanegol, mae Calderhead (1984) yn trafod os nad ydy addysgwyr yn ddigon clir wrth egluro am yr hyn mae'r dysgwyr yn buddio trwy gwblhau tasgau nad ydynt yn llwyddo yn y dasg. Noda Cullingford (1991) mai athrawon nad ydynt yn rhannu bwriadau yn glir yn achosi disgyblion i wastraffu amser trwy ystyried beth yw bwriad y dasg yn hytrach nag cyflawni'r dysgu. Felly trwy osod y tasgau yma yn ein haddysgu mae'n hanfodol ein bod yn glir wrth amlinelli feini prawf llwyddiant ac yr amser i gwblhau'r dasg.

### **Esboniad o'r cynllun astudiaeth gwers**

Y fethodoleg a ddefnyddiwyd yw ymchwil astudiaeth gwers sy'n fath o ymchwil gweithredol. Ystyr ymchwil astudiaeth gwers yw lle mae grŵp o addysgwyr sydd yn cynllunio ar y cyd, addysgu, arsylwi ac addysgu gwersi ymchwil (Dudley, 2011). Dros nifer o wersi ymchwil, gallant arloesi neu fireinio dull addysgeg a fydd yn cael ei rannu gydag eraill trwy wersi ymchwil cyhoeddus, a thrwy gyhoeddi papur sy'n amlinellu eu gwaith (Dudley, 2011). Mae astudiaeth gwers yn ffurf benodol iawn o ymchwil gweithredol sy'n canolbwyntio ar ddatblygu gwybodaeth athrawon (Dudley, 2011). Fe defnyddiwyd yn Japan ers yr 1870au ac amlinella Dudley (2011) mai astudiaeth gwers yn llwyddiannus i wella strategaethau addysgu athrawon.

Er ein bod yn athrawon o dan hyfforddiant gallwn gwestiynu effaith yr ymchwil yr ydym am gwblhau. Fodd bynnag, dadleua Dudley (2011) mai astudiaeth gwers yn helpu athrawon profiadol yn ogystal â dibrofiad i ddysgu. Awgryma Dudley (2011) oherwydd y prosesau cyd-gynllunio, arsylwi ar y cyd, dadansoddiad ar y cyd mae'n rhaid i ni

ddychmygu dysgu gyda'i gilydd, fe welwn agweddau ar ddysgu disgyblion trwy lygaid pobl eraill yn ogystal â'n rhai ein hunain ac rydym yn cymharu'r dysgu gwirioneddol a arsylwyd yn y wers ymchwil gyda'r dysgu rydym ni'n dychmygu pan wnaethom ei gynllunio. Ychwanega Dudley (2011) mai astudiaeth gwers yn ein gorfodi i ddod yn ymwybodol o bethau na fyddem fel arfer yn ymwybodol ohonyn nhw naill ai oherwydd y byddem yn ei anwybyddu neu oherwydd y byddai'n cael ei drin trwy ein system wybodaeth.

Defnyddir amrywiaeth o ddulliau asesu yn ystod ein hymchwiliad. Mae i bob un ei fanteision ac anfanteision. Penderfynom gasglu data ar ddulliau: arsylwi, grwpiau ffocws, adfyfrio a recordio. Dyweda Wilson (2009) mai defnyddio mwy nag un dull o gasglu data yn fanteisiol er bydd yn ychwanegu amser i ein gwaith ymchwil. Noda Wilson (2009) bydd defnyddio mwy nag un ffynhonnell o ddata yn eich helpu i ystyried safbwyntiau eraill yn eich dealltwriaeth ddatblygol o'r sefyllfa.

Wrth arsylwi yn ystod ein hymchwil defnyddir math o arsylwad strwythuredig. Yn ystod ein harsylwad roeddwn yn canolbwyntio ar elfennau penodol megis: ymateb y dysgwr i'r dasg, cyfyngiadau amser, mewnbwn athro, cyswllt gydag oedolion neu ddysgwyr eraill, gwendidau neu anawsterau'r disgybl ac unrhyw sylwadau ychwanegol. Gwelir yn Atodiad 1 y daflen arsylwi a chrëwyd ar gyfer ein hymchwil. Dilynwyd awgrymiadau Wilson (2009) pan fyddwch yn arsylwi ar ystafell ddosbarth rydych yn ddewis o ddilyniant parhaus o ddigwyddiadau felly mae'n hanfodol cynllunio'n ofalus ar gyfer y cyfle hwn. O ganlyniad, cyn cwblhau ein gwersi ymchwil fe wnaethom sicrhau ein bod yn gallu dilyn ein cynllun gwers yn llwyddiannus i gyflawni ein harsylwadau yn effeithiol.

Mae Wilson (2009) yn trafod y pwysigrwydd o ddisgyblion i fod yn gyfarwydd gydag arsylwadau yn y dosbarth i sicrhau bod y data a chasglwyd yn ddibynadwy. Ychwanega Wilson (2009) gan amharu ar yr amgylchedd dosbarth arferol a all arwain at wersi nad ydynt yn cynrychioli'r arfer. Fodd bynnag, yn ein dosbarthiadau ymchwil mae'r disgyblion yn gyfarwydd i ymwelwyr ac arsylwadau yn digwydd o ganlyniad i diwtoriaid prifysgol ymweld i asesu'r addysgu gan yr athro dan hyfforddiant. Ychwanega Nisbet (1977) nid yw'r dull o arsylwi yn opsiwn hawdd. Mae cynllunio yn ofalus yn hanfodol ac mae'n cymryd arfer i fanteisio i'r eithaf ar y dechneg.

Mae grwpiau ffocws yn ddull effeithiol i gasglu data o blant yn addysg. Daw James (2008) i'r casgliad mai ni allai'r teimlad y dylai plant gael ei weld a heb ei glywed fod yn fwy amhriodol ar gyfer y cyfnod presennol lle mae galw cynyddol am ymchwil sy'n cynnwys cyfweld plant. Yn ogystal, noda Elder *et al* (1993) mae'n hanfodol casglu gwybodaeth gan blant eu hunain ynghylch eu profiadau presennol a'u dyheadau yn y dyfodol. Dilynwyd canllawiau Dudley (2011) wrth osod cwestiynau ar gyfer y grŵp ffocws sydd yn canolbwyntio ar sut yr ymatebodd y disgyblion i'r dechneg, pa gynnydd a wnaethpwyd, pa dystiolaeth o ddysgu neu anawsterau dysgu y maent yn eu harddangos a beth y gellid eu hysgogi ynghylch y ffordd mae'r ymagwedd addysgu neu ddysgu yn cael ei ddatblygu ymhellach. Gwelir yn Atodiad 2 y cwestiynau agored a gofynnwyd yn ein grŵp ffocws sydd yn benodol ar gyfer y ein hymchwiliad. Yn allweddol, penderfynom sicrhau bod y disgyblion yn y grŵp ffocws yn trafod am ddau pump i ddeg munud i atal trafferth a theimlad o bwysau arnynt.

Cynhaliwyd y grwpiau ffocws gyda thri phlentyn o bob dosbarth a digwyddodd syth ar ôl y wers. Dewiswyd y tri disgybl ar sail gallu a lefelau cyrhaeddiad yn eu gwaith i sicrhau adborth o wahanol safbwyntiau dysgwyr y dosbarth. Dengys Scott *et al* (1995) esiampl o arfer dda gan ddefnyddio grwpiau ffocws gyda phlant ifanc. Awgryma Scott *et al* (1995) mai grŵp ffocws yn gweithio'n eithriadol o dda, gan roi sylw i drafodaeth soffistigedig iawn o gyflyrau hwyliu a newidiadau. Mae hyd yn oed plant mor ifanc ag 11 yn cael mewnwleddiad hynod o reolaeth argraff a hunangyflawniad ym mywyd bob dydd a dynnodd sylw at y ffaith y gallai atebion fod yn wahanol yn dibynnu ar a oedd y cwestiwn am wybod sut rydych chi'n teimlo y tu mewn, sut rydych chi'n ceisio ymddangos pobl eraill, neu sut mae pobl eraill yn eich barn chi. Cefnoga Spencer a Flin (1990) yr arfer dda gan awgrymu mai tystiolaeth seicolegol a meddygol yn awgrymu bod plant yn fwy dibynadwy nag oedolion, a gellir cynyddu dibynadwyedd trwy gyfweld medrus.

Yn ogystal i'r grwpiau ffocws, penderfynom recordio llais yn ystod y grŵp ffocws. Trafoda Wilson (2009) y manteision o recordio yn eich galluogi i gasglu cofnod mwy cyflawn yn hytrach na dim ond arsylwadau dosbarth uniongyrchol. Er hynny, gall ystumiau cael eu colli yn y recordiad (Wilson, 2009). Teimlon ei fod yn fwy manteisiol

i ddefnyddio'r dull recordio i adlewyrchu ac ail-glywed y sgwrs wrth ddadansoddi ein hastudiaeth.

Penderfynom adlewyrchu ar y wers trwy ddilyn model beirniadai wedi adfyfrio (BWA). Gwelir esiampl o'r model yn Atodiad 3. Mae'r model BWA wedi'i chyfuno gwaith Kolb (1974), Gibbs (1988) a thacsonomeg ddiwygiedig Bloom. Awgryma Kolb (1974) mai'r Cylch Dysgu yn pwysleisio arsylwi myfyriol fel ffordd o ddadansoddi a thynnu casgliadau o brofiad. Y nod yw cymryd y dysgu hwn i brofiadau newydd, gan gwblhau'r cylch. Mae Gibbs (1988) yn trafod y pwysigrwydd o ddisgrifiad o'r digwyddiad neu brofiad hyd at gasgliadau ac yn ystyried digwyddiadau yn y dyfodol. Yn ogystal, mae'r model BWA yn canolbwyntio ar dacsonomeg ddiwygiedig Bloom (1956) lle amlinellwyd chwe elfen: Gwybodaeth, Dealltwriaeth, Cymhwysiad, Dadansoddi, Synthesis a Gwerthuso. Defnyddiwyd y model BWA i alluogi i greu mwy o ddyfnder o fyfyrddod wrth gasglu data ac i ddatblygu'r ymchwiliad ar gyfer y dyfodol.

### **Ystyriaethau Moesegol**

Mae ystyriaeth foesegol yn hanfodol wrth gwblhau gwaith ymchwil mewn dosbarth. Cyn dechrau fy ngwaith ymchwil dilynais gyngor Sapsford ac Evans (1984) lle maent yn amlinellu'r pwysigrwydd i ystyried pwy gall fy ymchwil niweidio? Mae angen ystyried risgiau i gyfranogwyr, risgiau i ymchwilydd a risgiau i'r brifysgol. Trafoda Hart a Bond (1995) mai yn allweddol i sicrhau bod cyfranogwyr yn deall y gwaith ymchwil sydd yn digwydd. Disgwylid i'r ymchwilydd i ddarllen manylion y gwaith ymchwil cyn y wers a'r grwpiau ffocws i sicrhau bod cyfranogiad yn wirfoddol a bod cyfranogwyr yn rhydd i wrthod ateb unrhyw gwestiynau a gallant dynnu'n ôl ar unrhyw adeg o'r gwaith ymchwil (Hart a Bond, 1995). Crëwyd sgript i ddarllen cyn y wers i sicrhau bod y plant yn ymwybod o'r gwaith ymchwil ac yn ogystal taflen cydsyniad i ddynodi a ydynt yn deall a chytuno gydag amodau'r gwaith ymchwil. Gwelir taflen wybodaeth ar gyfer y plant yn Atodiad 4 a thaflen cydsyniad yn Atodiad 5.

Yn ychwanegol, trafoda Cohen a Manion (1994) y pwysigrwydd o ymchwilwyr gael caniatâd gwybodus o'r safle ymchwil a'r cyfranogwyr. Amlinella Blaxter et al (1996) mai cytundebau a ffurflinau yn allweddol i gael cyn dechrau'r gwaith ymchwil. Cwblheir ffurflen cais am gymeradwyaeth foesegol gan y brifysgol a llofnodwyd gan yr athro

dosbarth cyn yr astudiaeth gwers yn ogystal â llythyr i gael cydsyniad o rieni neu warchodwyr gan hysbysebu ein gwaith ymchwil.

Darllenais ddogfen canllawiau'r Brifysgol '*Research Ethics and Integrity Code of Practice*' (2017) a dilynwyd y camau i sicrhau nad oedd risg i unrhyw gyfranogwyr. Yn ogystal, dilynwyd camau Polisi Diogelu Plant yr ysgolion drwy gydol yr ymchwiliad a chanllawiau BERA (2011) i leihau risgiau i'r Brifysgol a sefydliad ymchwil.

Yn ychwanegol i ddilyn yr awgrymiadau uchod yn ystod fy ngwaith ymchwil roedd yn allweddol i drin pob plentyn yr un peth. Yn amlwg, dewisais unigolion penodol ar gyfer y grŵp ffocws ond os oedd unrhyw blentyn yn anhapus oherwydd nad ydynt wedi'i chael ei ddewis i gymryd rhan yn y grŵp ffocws roedd hawl iddynt gymryd rhan os oedd y rhieni wedi rhoi caniatâd iddynt. Wrth ddadansoddi'r astudiaethau gwers byddaf yn cyfeirio at ddisgyblion fel 'Plentyn 1', 'Plentyn 2' a 'Plentyn 3' i sicrhau anhysbysrwydd.

I atal unrhyw risgiau i'r ymchwilwyr fe wnes i sicrhau bod oedolion eraill yn bresennol ar bob adeg y wers a grŵp ffocws. Yn ogystal, fe wnes i sicrhau bod fy mhartner ymchwil ac athro dosbarth yn bresennol trwy bob cam o'r ymchwiliad. Penderfynom ddefnyddio ystafelloedd gyda drysau ar agor a nifer o ffenestri ar gyfer y grwpiau ffocws a oedd yn galluogi i oedolion arall gweld yr hyn sydd yn digwydd ac yn briodol os oedd unrhyw unigolyn am adael ar unrhyw adeg yn ystod yr ymchwiliad.

### **Astudiaeth Gwers 1 a Dadansoddiad**

Dengys canlyniadau'r astudiaeth gwers 1 bod y disgyblion penodol yn ymateb yn llwyddiannus i'r gofynion a osodwyd ar y cyfan. Penderfynwyd gosod tasg i gwblhau darn o farddoniaeth acrostig yn seiliedig ar gastell gan amlinelli'r meini prawf llwyddiant: i sillafu geiriau yn gywir, i amrywio ansoddeiriau ac i ddeall bod dim angen odli. I sicrhau deallusrwydd y plant fe wnaeth yr athro dosbarth modeli ddarn o farddoniaeth acrostig a oedd yn seiliedig ar ysgol a chwblhau tasg fer fesul pâr cyn dechrau ar y dasg annibynnol. Gofynnwyd i'r plant cwblhau drafft cyntaf o fewn chwarter awr a chwblhau ail ddrafft yn yr ail chwarter awr o'r wers gyda'r amserydd

wedi'i dangos yn glir ar flaen y dosbarth. I ddadansoddi cyraeddiadau'r disgyblion byddaf yn trafod eu hymatebion yn unigol.

### Plentyn 1

Ymatebodd Plentyn 1 yn effeithiol i'r dasg a osodwyd gan gwblhau'r drafft cyntaf a'r ail ddrafft o fewn y cyfyngiadau amser. Yn ddiddorol, cafwyd Plentyn 1 trafferth wrth weithio fel pâr gan geisio gweithio yn annibynnol yn ystod y dasg agoriadol a chafwyd Plentyn 1 ei atgoffa bod y dasg yn waith pâr gan yr athro dosbarth. Fodd bynnag, nodwyd yr arsylwr bod Plentyn 1 yn awyddus i ymateb i'r dasg ryngweithiol gan gynnig ateb i'r athro pum gwaith gan wrando yn astud i gyfarwyddiadau.

Cyn dechrau'r dasg o gwblhau'r drafft cyntaf o fewn chwarter awr, nodwyd bod Plentyn 1 yn trafod y dasg gyda chymydog cyn dechrau. Gorffennwyd Plentyn 1 y dasg yn llwyddiannus gan ddangos hyder a gwaith annibynnol heb unrhyw fewnbwn athro neu oedolyn ychwanegol. Dangoswyd sgiliau meddwl cryf gan ymestyn brawddegau a chymariaethau cryf yn y brawddegau a ysgrifennwyd wrth i'r athro cyfarwyddo i Plentyn 1 ail-ddrafftio ei gwaith a defnyddio'r amser a oedd yn weddill i wella ei gwaith.

Fe wnaeth Plentyn 1 cwblhau'r drafft olaf cyn i'r amserydd orffen heb unrhyw drafferth. Nodwyd bod Plentyn 1 yn trafod gyda'r athro dosbarth yn aml yn ystod yr ail chwarter awr wrth i'r athro herio'r disgybl i gynhyrchu gwaith i'r safon uchaf bosibl. Yn ogystal fe wnaeth Plentyn 1 cwblhau tasg estynedig cyn gorffennwyd yr amserydd. Yn ddiddorol fe wnaeth Plentyn 1 gwrthod darllen ei gwaith o flaen y dosbarth er ei fod yn hyderus yn cwblhau'r dasg yn annibynnol.

### Plentyn 2

Cwblhaodd Plentyn 2 y dasg a osodwyd gan ddangos sgiliau meddwl cryf a chanolbwyntio dwys. Yn ystod y cyflwyniad nodwyd yr arsylwr bod Plentyn 2 yn cael trafferth wrth weithio fel pâr ac roedd angen i ddysgwr eraill esbonio mai gwaith pâr oedd y dasg. Dangoswyd Plentyn 2 ei fod yn ofidus i gwblhau gwaith pâr gan grio wrth i'r partner ceisio hybu i'w cwblhau'r dasg.

Wrth gwblhau'r drafft cyntaf o fewn y chwarter awr sylweddolwyd yr arsylwr fod Plentyn 2 yn edrych ar yr amserydd yn rheolaidd. Fodd bynnag, gorffennwyd Plentyn 2 y drafft cyntaf o fewn y cyfyngiadau amser. Esboniwyd yr athro bod angen i Blentyn 2 sicrhau bod yr hyn a ysgrifennwyd yn gysylltiedig â chastell yn hytrach na brawddegau heb gysylltiad i deitl y gerdd.

Yn ystod yr ail chwarter awr fe wnaeth Plentyn 2 addasu ei drafft cyntaf yn sylweddol ar gyfer ei ail ddrafft ar ôl derbyn cymorth yr athro. Estynnwyd gwaith Plentyn 2 gan ddefnyddio geiriadur gan ofyn i Blentyn 1 am gymorth ar sut i ddefnyddio'r geiriadur yn gywir. Cafwyd Plentyn 2 llawer o drafferth i sillafu yn llwyddiannus a nodwyd yr arsylwr ei fod yn edrych ar yr amserydd tua deg gwaith yn ystod yr ail chwarter awr sy'n awgrymu ei fod o dan bwysau i gwblhau'r dasg. Er hynny, cwblhaodd Plentyn 2 y ail ddrafft o fewn y cyfyngiadau amser yn effeithiol ac wedi ymateb i ofynion yr athro gan newid y gerdd i un sydd yn ymwneud a chastell. Ar ddiwedd y wers roedd Plentyn 2 yn awyddus i rannu ei gwaith i'r dosbarth hyd yn oed dangoswyd diffyg hyder a phryderon wrth gwblhau'r dasg yn annibynnol.

### Plentyn 3

Cafodd Plentyn 3 trafferth wrth gwblhau'r dasg i gymharu â Phlentyn 1 a 2. Nodwyd yr arsylwr bod Plentyn 3 yn medru cwblhau'r dasg ryngweithiol yn llwyddiannus gyda'i phartner ond wedi cael trafferth wrth weithio tuag at y cyfyngiadau amser a roddwyd yn annibynnol.

Dangoswyd Plentyn 3 ymdrech wrth geisio cwblhau'r drafft cyntaf o fewn y chwarter awr a roddwyd. Fe wnaeth Plentyn 3 ofyn am gymorth o ddysgwyr eraill ar gyfer sillafu geiriau yn aml gan ddarllen enghreifftiau o'i waith yn ogystal â chywiro dysgwyr eraill gan ddefnyddio iaith o safon drawiadol. Methodd Plentyn 3 i gwblhau'r drafft cyntaf yn ystod y chwarter awr a roddwyd gan yr athro er ddangoswyd ymdrech i fwrw'r nod.

Yn ystod yr ail chwarter awr o'r wers wrth gwblhau'r ail ddrafft dangoswyd Plentyn 3 ymdrech i weithio yn annibynnol gan ddefnyddio'r geiriadur i ategu'r gwaith o'i drafft cyntaf. Er hynny, gwelwyd fod safon gwaith Plentyn 3 wedi dirywio wrth i'r her o weithio o fewn y cyfyngiadau amser profi i fod yn rhy uchelgeisiol iddo. Nodwyd yr arsylwr fod

Plentyn 3 yn treulio llawer o amser yn edrych ar y geiriadur yn hytrach nag gwblhau'r dasg ac yn ogystal â chanolbwyntio ar yr amserydd yn rheolaidd. Yn anffodus, ni chwblhawyd Plentyn 3 y dasg er roedd yn amlwg ei fod wedi'i ymdrechu i fwrw'r nod.

### Dadansoddiad Astudiaeth Gwers 1

O ganlyniad i'r grŵp ffocws cynhaliwyd ar ôl y wers cytunodd y tri phlentyn bod yr amserydd gweledol wedi hybu'r plant i weithio yn fwy effeithlon. Cytunwyd wrth iddynt wybod y gofynion clir amlinellwyd gan yr athro bod y dasg yn haws i gwblhau i gymharu â gwersi heb amserydd. Fodd bynnag, nodwyd Plentyn 3 teimlad o bwysau arnynt i gwblhau'r dasg yn yr amser a roddwyd a ni chafodd digon o amser i gwblhau'r dasg.

I wella'r wers ar gyfer y dyfodol bydden ni yn sicrhau bod mwy o amser i gwblhau'r dasg ryngweithiol ar ddechrau'r wers. Teimlon fod y cyflwyniad wedi ei ruthro ac wedi rhoi pwysau diangen ar rai dysgwr. Defnyddiwyd y dulliau arsylwi yn effeithiol wrth i'r arsylwr nodi yn drylwyr gan ganolbwyntio yn llwyr ar y tri phlentyn yn ystod yr astudiaeth gwers. Gweithiodd y ffurflen arsylwi a grŵp ffocws yn effeithiol gan nodi nifer o ymatebion diddorol gan y cyfranogwyr.

### Astudiaeth Gwers 2 a Dadansoddiad

Dilynwyd yr un dasg yn astudiaeth gwers 1 lle gofynnwyd i'r dysgwyr i gwblhau darn o farddoniaeth acrostig a amlinellwyd yr un meini prawf llwyddiant. Fe wnaeth yr athro dosbarth modeli enghraifft a chwblhau tasg fesul pâr cyn dechrau'r dasg annibynnol. Wrth adlewyrchi o astudiaeth gwers 1, penderfynwyd caniatáu i'r dysgwr cael mwy o amser i gwblhau'r dasg ryngweithiol i osgoi unrhyw drafferthion fel adroddwyd y disgyblion yn astudiaeth gwers 1. Eto gofynnwyd i'r dysgwyr creu drafft cyntaf o'i cherdd acrostig o fewn chwarter awr gyntaf ac ail ddrafft o fewn chwarter awr olaf gan ddefnyddio amserydd gweledol. Dengys o ganlyniadau astudiaeth gwers 2 bod y disgyblion wedi ymateb yn amrywiol i'r gofynion. I ddadansoddi cyraeddiadau'r disgyblion byddaf yn trafod eu hymatebion yn unigol.

### Plentyn 1

Nodwyd yr arsylwr fod Plentyn 1 wedi gweithio'n effeithiol gyda'i phartner yn ystod y dasg ryngweithiol gan wrando yn astud i'r athro ac yn cynnig ateb yn syth. Defnyddiwyd geirfa wych wrth ysgrifennu esiampl o gerdd acrostig, fodd bynnag rhoddodd Plentyn 1 yr argraff ei fod yn ansicr o'i waith.

Wrth ddechrau'r drafft cyntaf o fewn y chwarter awr a roddwyd dywedodd Plentyn 1 i'w chyfoedion ei fod am gwblhau'r dasg yn annibynnol heb unrhyw cymorth. Nodwyd yr arsylwr bod Plentyn 1 wedi dechrau'r dasg yn gyflym gan orffen y drafft o fewn pum munud. Awgrymodd yr athro i adolygu'r drafft cyntaf ac fe wnaeth Plentyn 1 meddwl yn ddwys am welliannau i'w gwaith gan ganolbwyntio ar yr amseredd yn rheolaidd.

Defnyddiwyd yr ail chwarter awr i gwblhau'r ail ddrafft yn ofalus yn hytrach na ruthro i gwblhau'r dasg. Fe wnaeth Plentyn 1 gofyn am gymorth o'r athro i sicrhau ei bod ar y trywydd iawn wrth ysgrifennu'r ail ddrafft. Nodwyd yr arsylwr bod Plentyn 1 yn dangos ymdrech sylweddol i gwblhau gwaith yn daclus gan ganolbwyntio ar yr amseredd yn rheolaidd. Darperir Plentyn 1 gwaith o safon uchel gan ddefnyddio iaith raenus yn y gerdd acrostig sydd yn uwch na'r disgwyl.

### Plentyn 2

Wrth gwblhau'r dasg ryngweithiol arsylwyd fod partner Plentyn 2 yn arwain y gwaith. Gallwn gwestiynu mai diffyg hyder yw hyn gan Plentyn 2, fodd bynnag ar ôl amser fe wnaeth Plentyn 2 cyfrannu i'r dasg gyda'i phartner. Wrth iddo'r athro gofyn am ymatebion o'r dosbarth nodwyd yr arsylwr bod Plentyn 2 yn awyddus i ymateb i gwestiynau a darllen sydd yn gwrthgyferbynnu'r hyn a arsylwyd yn ystod y gweithgaredd pâr.

Sylweddolwyd yr arsylwr bod Plentyn 2 yn trafferthu wrth gwblhau'r drafft cyntaf o fewn y cyfyngiadau amser o chwarter awr. Roedd angen Plentyn 2 cael llawer o gymorth i sicrhau ei fod ar y trywydd iawn ac roedd angen ail-esbonio i ysgrifennu brawddegau yn hytrach nag ysgrifennu geiriau unigol ar gyfer pob llinell. Cafwyd Plentyn 2 trafferth

sylweddol i feddwl yn annibynnol yn ystod y dasg, gan ddilyn model yr athro. Fe wnaeth yr athro dosbarth hybu Plentyn 2 i werthuso ei gwaith yn rheolaidd, er hynny gorffennwyd Plentyn 2 y drafft cyntaf tu fewn yr amser a rhoddwyd.

Yn ystod cwblhau'r ail ddrafft o fewn y cyfyngiadau amser nodwyd yr arsylwr nifer o drafferthion dangoswyd gan Plentyn 2. Arhoswyd Plentyn 2 tair munud cyn dechrau'r ail ddrafft ac yna pum munud i ysgrifennu un llinell. Yn ddiddorol, ar ôl i chwe munud ar yr amseredd gofynnwyd Plentyn 2 i'r athro i esbonio'r dasg eto. Ar ôl esboniad o'r athro gorffennwyd Plentyn 2 yr ail linell ar ôl saith munud. Ni chwblhawyd Plentyn 2 y dasg gan gynhyrchu gwaith o safon isel i gymharu â'i drafft cyntaf. Yn ychwanegol, ar ddiwedd y wers wrth i'r athro trafod yr addysgu roedd Plentyn 2 yn awyddus i ateb yn hyderus a dangoswyd dim pryderon wrth ymateb nôl i'r athro.

### Plentyn 3

Dechreuwyd Plentyn 3 y wers yn aflonydd gan siarad am dros 30 eiliad i'w cyfoedion a diffyg canolbwyntio wrth i athro dosbarth cyflwyno'r wers. Arsylwyd bod Plentyn 3 yn lliwio'i gwisg ysgol yn hytrach na wrando ar y cyfarwyddiadau. Fodd bynnag, yn ystod y dasg ryngweithiol dangoswyd Plentyn 3 ei fod yn aelod cryf o'r grŵp gan arwain y trafod a'r gwaith. Gorffennwyd y grŵp y dasg cyn disgwyl a dangoswyd Plentyn 3 ei fod yn aflonydd wrth eistedd ar y carped wrth aros i weddill y dosbarth i orffen.

Dangoswyd Plentyn 3 trafferth wrth gwblhau'r drafft cyntaf o fewn y chwarter awr a roddwyd. Yn ystod yr amser nodwyd bod Plentyn 3 yn siaradus iawn ac roedd angen sicrhad yr athro i'w hybu gwneud y dasg. Er hynny, gwelodd yr arsylwr bod Plentyn 3 yn awyddus i blesio ac wedi'i ymglymu yn y dasg. Dangoswyd sgiliau meddwl cryf ond yn dangos ei fod yn aflonyddu gan dynnu sylw ei chymdogion, er ei fod yn trafod y dasg. Hefyd, nodwyd yr arsylwr bod Plentyn 3 yn treulio amser yn edrych o gwmpas y dosbarth lle cwestiynwyd a oedd Plentyn 3 yn meddwl yn ystod yr amser yma.

Wrth gwblhau'r ail ddrafft fe symudwyd Plentyn 3 yn agosach i'r athro i gwblhau'r dasg. Gwelwyd bod Plentyn 3 am weithio yn annibynnol wrth ddefnyddio geiriadur i gyfoethogi ei iaith. Ni newidiwyd Plentyn 3 cynnwys ei gwaith o'r drafft cyntaf i'r ail ddrafft ond nodwyd bod cynnydd sylweddol yn ymdrech y dysgwr. Fe wnaeth Plentyn

3 disgwyl ar yr amserydd yn rheolaidd gan orffen y dasg gydag ugain eiliad yn weddill. Er bod y gwaith o safon weddol gwelwyd llwyddiant bod Plentyn 3 wedi gorffen y dasg o fewn y cyfyngiadau amser.

### Dadansoddiad Astudiaeth Gwers 2

Adroddwyd y tri phlentyn yn gadarnhaol am effaith defnyddio'r amserydd yn ystod y grŵp ffocws. Dywedwyd bod gweld amserydd yn ddefnyddiol i ymrwmo yn y dasg a nodwyd Plentyn 1 bod dim angen rhuthro oherwydd roedd amser pendant i weithio tuag at. Teimlodd y grŵp yn gryf amdano ddefnyddio amserydd yn y dyfodol i'w hybu i gwblhau tasgau gwahanol. Fodd bynnag, amlinella Plentyn 2 y teimlad o bwysau i fwrw'r targedau a osodwyd gan yr athro o fewn y cyfyngiadau amser.

Gweithiodd astudiaeth gwers 2 yn well ac yn fwy llyfn i gymharu ag astudiaeth gwers 1. Yr unig wendid a arsylwyd ar ôl adfyfrio roedd angen darparu nifer o amseroedd unigol yn hytrach nag un o flaen y dosbarth oherwydd gosodiad yr ystafell ond ni effeithiodd yr astudiaeth yn sylweddol.

### **Trafodaeth ar ganfyddiadau ymchwil mewn perthynas â llenyddiaeth ac ymchwil cysylltiedig**

Dengys canlyniadau'r astudiaeth hon mai defnydd o amserydd yn medru ymrwmo disgyblion i gyrraedd eu targedau'n rheolaidd. Awgryma Mortimore *et al* (1988) mai ysgolion cynradd da yn cael ei nodweddu gan ddarparu tasgau sydd wedi'i diffinio'n glir ac addysgu heriol. Yn ogystal, diffinia arolygwyr yr adran addysg a sgiliau (DES, Department for Education and Skills) (1985) mai ysgolion cynradd effeithiol yn darparu addysgu o'r ansawdd uchaf pan bod athrawon yn osod tasgau heriol sy'n gyraeddadwy i'r dysgwr. Credaf yn ystod ein hastudiaeth gwers fe wnaethom ddarparu tasgau heriol i'r dysgwyr a wnaeth galluogi iddynt ymglymu i gwblhau'r heriau o fewn y cyfyngiadau amser ar y cyfan.

Un o'r canlyniadau mwyaf arwyddocaol sy'n deillio o'r astudiaeth hon yw cyraeddiadau Plentyn 2 o'r astudiaeth gwers gyntaf. Dewiswyd Plentyn 2 oherwydd roeddent yn trafferthu i gyrraedd y targedau a osodwyd gan yr athro yn rheolaidd gan fethu i

gwblhau tasgau. Mae'n bwysig nodi nad oedd y gwaith a osodwyd i Blentyn 2 yn uchelgeisiol yn wersi pob dydd, y broblem oedd diffyg ymglymiad yn y dasg. Fodd bynnag, yn ystod yr astudiaeth gwers gorffennwyd Plentyn 2 y tasgau yn llwyddiannus sydd yn erbyn y duedd i'r unigolyn. Mae'r canlyniadau yma yn dilyn awgrymiadau Cowley (2010) o osod targedau a therfynai amser addas i alluogi llwyddiant i ddisgyblion. Yn ogystal, cefnoga Wilson (2016) syniad Cowley (2010) gan weld llwyddiannau yn addysgu gan osod amseroedd pendant i orffen tasg gyda meini prawf llwyddiant clir.

Fodd bynnag, mae'r astudiaeth yma wedi dangos mai defnyddio amser ydd yn medru rhoi pwysau diangen ar ddysgwyr. Awgryma Cowburn a Blow (2018) mai gormod o bwyslais ar gyrhaeddiad academiaidd a dim ffocws digonol ar hyrwyddo lles disgyblion. Mynegodd Plentyn 2 yn astudiaeth gwers 2 pryder o ddefnyddio'r amser ydd yn rheolaidd. Cynhyrchwyd Plentyn 2 lefel isel o waith yn ystod y wers a allwn gwestiynu a oedd hyn o ganlyniad i'r pwysau'r amser ydd yn y dosbarth? Er hynny, amlinella Lumsden (1994) y pwysigrwydd o gyflogi strategaethau sydd yn galw am fwy o ymdrech o'r dysgwr ac sy'n galluogi i brosesu gwybodaeth yn fwy dwfn. Efallai y dylid rhoi cynnig ar y strategaeth eto gan osod tasg ar bwnc gwahanol i weld os yw canlyniadau ac ymateb Plentyn 2 yn wahanol.

Canfyddiad pwysig arall oedd bod disgyblion mwy abl a thalentog (MAT) wedi dangos datblygiad yn y sgil o hunanwerthuso eu gwaith. Gwelwyd bod Plentyn 1 o'r ddwy astudiaeth gwers yn medru cywiro'i gwaith ac adolygu'r hyn a ysgrifennwyd o fewn y cyfyngiadau amser. Dengys Fontana a Fernandes (1994) mai hunanwerthuso ar waith yn effeithiol yn galluogi i ddisgyblion ennyn gwelliannau sylweddol i'w gwaith. Cefnoga Dunford (2005) y canfyddiad hwn gan awgrymu mai hunanwerthuso yn medru gwella perfformiad disgyblion yn ogystal â dathlu cyflawniad y disgyblion.

### **Casgliad**

Mae angen cydnabod bod i'r astudiaeth beilot hon nifer o gyfyngiadau. Dengys canlyniadau'r astudiaeth hon mai nifer o ganlyniadau o'r astudiaeth gan ymatebion y dysgwyr i'r dasg yn amrywio. Trafoda Bell (1999) effaith cyfyngiadau amser ar ymchwil a oedd yn amlwg yn yr ymchwiliad yma. Er hynny, defnyddiwyd nifer o ddulliau asesu

yn yr astudiaeth yma sydd yn codi dibynadwyedd a dilysrwydd ein gwaith. Amlinella'r 'Open Univeristy' (1988) pwysigrwydd croeswrio gan ddefnyddio asesu aml ddull. Yn ogystal, cytuna Cohen a Manion (1994) bod amrywiaeth o ddulliau yn addas lle mae angen gwerthuso agwedd ddadleuol o addysg yn fwy trylwyr.

Argymhellir y dylid cynnal ymchwil pellach i sicrhau dilysrwydd y gwaith ymchwil. Honna Bell (1999) mai dibynadwyedd yw lle mae ymchwil neu weithdrefn yn cynhyrchu canlyniadau tebyg o dan amodau cyson ar bob achlysur. Yn amlwg, mae angen ailadrodd yr ymchwil i weld pa ganlyniadau a geir i wirio dilysrwydd ein hymchwil hyd yn hyn. Yn gadarnhaol, dilynwyd canllawiau Bell (1999) yn ystod yr ymchwil lle amlinella Bell (1999) y pwysigrwydd o gael ystod o ymatebion a phosibl i alluogi i gyflawni amcanion yr astudiaeth a darparu atebion i'r cwestiynau allweddol. Teimlaf yn gryf ein bod wedi'i llwyddo i wneud hyn drwy ddefnyddio disgyblion o bob grŵp gallu yn ystod ein gwaith ymchwil ac i astudio eu hymatebion.

I sicrhau dilysrwydd yn bellach mae angen dilyn awgrymiadau Wragg (1980) wrth ofyn cwestiynau i'r cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws. Noda Wragg (1980) mai yn allweddol i ddefnyddio'r un cwestiynau a ofynnwyd yn y grwpiau ffocws yn yr ymchwiliadau peilot i sicrhau dilysrwydd. Yn ogystal trafoda Denscombe (1998) pwysigrwydd dileu rhagfarn yr ymchwilydd. Awgryma Denscombe (1998) os yw'r canlyniadau o gynnal yr ymchwil pellach fel newidyn cyson ac yn amnewid yr ymchwilydd, fel pe bai'r canlyniadau'n debyg, gallwn gael gwared â'r posibilrwydd o annibynadwyedd oherwydd tuedd yr ymchwilydd yn ein canlyniadau peilot.

Yn ystod fy mhrofiad addysgu proffesiynol nesaf ac yn ystod fy ngyrfa fel athro byddaf yn defnyddio'r strategaeth o ddefnyddio amseredd i geisio gwella ymrwymiad disgyblion y dosbarth i gwblhau tasgau. Trafoda Lincoln a Guba (1985) mai ymgysylltiad pellach yn cynyddu dilysrwydd yr ymchwil ac felly trwy ddefnyddio'r strategaeth yn ystod fy addysgu bellach gallaf astudio'r canlyniadau dros gyfnod hirach mewn dosbarth. Yn ogystal, byddaf yn amrywio defnyddiet y strategaeth o osod amseredd ar gyfer tasgau ar draws y cwricwlwm gan astudio i weld os oes ymatebion mwy llwyddiannus yn benodol i unrhyw bwnc penodol gan ein bod wedi ymchwilio yn wers iaith yn unig hyd yn hyn.

Un o wendidau'r astudiaeth hon oedd prinder yr amseredd gweledol o flaen y dosbarth yn yr ail astudiaeth gwers. Yn anffodus, o ganlyniad i gynllun y dosbarth roedd rhaid dosbarthu nifer o amseroedd gwahanol i bob grŵp. Gallwn gwestiynu ein canlyniadau oherwydd y rhwystr yma oherwydd efallai oedd yr amseredd yn llai gweledol i rai disgyblion. Ni oeddem yn ymwybodol o'r cyfyngiad yma tan ddiwrnod yr astudiaeth gwers, felly ni ellid trefnu trefniadau amgen mewn rhybudd byr. Er hynny, gallwn weld bod ymatebion y cyfranogwyr yn gymharol debyg i ganlyniadau astudiaeth gwers 1.

Fodd bynnag, er mai astudiaeth beilot oedd hyn, credaf fod yr ymchwil wedi bod yn llwyddiannus gan ystyried diffyg profiad yr ymchwilwyr. Gallwn fyfyrion ar y canlyniadau ac ystyried sut gallwn weithredu'r strategaeth ar gyfer ein haddysgu yn y dyfodol i sicrhau addysgu llwyddiannus ac effeithiol i ein disgyblion.

### **Argymhellion**

Mae i ganfyddiadau'r astudiaeth hon nifer o oblygiadau pwysig o ran ymarfer yn y dyfodol. Yn sicr, bydd angen cynnal ymchwil pellach ac astudiaethau gwersi i sicrhau dilysrwydd ein canlyniadau a sut gallwn wella'r strategaeth o ddefnyddio amseredd yn y dosbarth i sicrhau ymrwymiad y disgyblion. Byddaf yn astudio llenyddiaeth yn bellach ac unrhyw ymchwil cysylltiedig gallaf ddarganfod sydd yn gysylltiedig â'r ymchwil fe wnaethom gynnal.

Gallwn ymchwilio i'r canfyddiadau darganfuwyd ac astudio sut mae disgyblion o wahanol grwpiau gallu yn ymateb i'r tasgau. Yn ogystal, gallwn ystyried sut mae'r strategaeth yn effeithio'r disgyblion mwy abl a thalentog i gymharu a phlant ag anghenion addysgol arbennig (AAA) ac anawsterau a/neu anableddau dysgu (AAD).

Mae nifer o newidiadau pwysig y mae angen eu gwneud gan amrywio'r pynciau yr ydym yn addysgu gan ddefnyddio'r amseredd. Yn ein hymchwil, defnyddiwyd ar gyfer astudiaeth gwers iaith yn unig ac felly bydd yn ddiddorol i weld y canlyniadau o astudiaethau gwersi mewn meysydd arall y cwricwlwm. Yn ogystal, mae angen sicrhau bod cyfleusterau priodol ar gael o fewn y dosbarth i sicrhau bod disgyblion yn medru gweld yr amseredd yn glir wrth gwblhau'r tasgau. Hefyd, gallwn amrywio'r

amser a roddwyd i ddisgyblion i gwblhau tasgau a amlinellwyd gan yr addysgwyr i fonitro ac asesu'r ymatebion a chasglwyd gan yr ymchwilwyr.

Byddaf yn rhannu arfer da'r ymchwiliad yma gyda fy nghyfoedion a thrafod sut gallwn wella ein hastudiaeth gwers ar gyfer y dyfodol. Trwy ofyn i ffynonellau nad oedd wedi cymryd rhan yn y gwaith ymchwil gallent argymhell newidiadau penodol gallwn wneud i'r ymchwil ac astudiaeth gwers. Argymhellir dylid trefnu bod rhagor o astudiaethau gwersi yn cael ei gynnal i weld sut y gellir cyflwyno'r strategaeth hon i'r arfer gorau.

## **Rhestr Gyfeirio**

BERA (2011) *Ethical guidelines for education* (Ar-lein). Ar Gael: <http://content.yudu.com/Library/A2xnp5/Bera/resources/index.htm?referrerUrl=http://free.yudu.com/item/details/2023387/Bera> Cyrchwyd ar: 31ain o Fawrth, 2018.

Blaxter, L., Hughes, C. a Tight, M. (1996) *How to Research*. Buckingham: Open University Press.

Bloom, B., Englehart, M. Furst, E., Hill, W. a Krathwohl, D. (1956). *Taxonomy of educational objectives: The classification of educational goals. Handbook I: Cognitive domain*. New York, Toronto: Longmans, Green.

Calderhead, J. (1984) *Teachers' Classroom Decision-making*. London: Holt, Rinehart and Winston.

Cohen, L. a Manion, L. (1994) *Research Methods and Statistics in Psychology*, 2<sup>nd</sup> ed. London: Routledge.

Cowburn, A. a Blow, M. (2018). *Wise Up: Prioritising Wellbeing in Schools*. Ar gael: <https://youngminds.org.uk/media/1428/wise-up-prioritising-wellbeing-in-schools.pdf>. Cyrchwyd ar 10fed o Ebrill, 2018.

Cowley, S. (2010) *Getting the Buggers to Behave*. 4<sup>th</sup> ed. London: Continuum International Pub. Group

Cullingford, C. (1991) *The Inner World of the School: Children's Ideas about Schools*. London, Cassell.

Dean, J. (2000) *Improving Children's Learning: Effective Teaching in the Primary School*. London: Routledge.

Denscombe, M. (1998) *The Good Research Guide*. Buckingham: Open University Press.

DES (1985) *Education Observed 3: Good Teachers*, London, HMSO.

Dev, P.C. (1997). *Intrinsic motivation and academic achievement: What does their relationship imply for the classroom teacher?* Remedial and Special Education, 18(1), Tud 12-19.

Dudley, P. (2011). *Lesson Study: a handbook*. Ar gael: [http://lessonstudy.co.uk/wp-content/uploads/2012/03/Lesson\\_Study\\_Handbook\\_-\\_011011-1.pdf](http://lessonstudy.co.uk/wp-content/uploads/2012/03/Lesson_Study_Handbook_-_011011-1.pdf). Cyrchwyd ar 3ydd Ebrill, 2018.

Dunford, J. (2005). *School Self-evaluation: A Reflection and Planning Guide for School Leaders*. National College for School Leadership

Elder, G.H. Jr, Modell, J. a Parke, R.D. (1993) *Children in Time and Place: Developmental and Historical Insights*, Cambridge: Cambridge University Press.

Fontana, D a Fernandes, M. (1994). Improvements in mathematics performance as a consequence of self-assessment in Portuguese primary school pupils. *British Journal of Education Psychology*.

Gibbs G (1988) *Learning by Doing: A guide to teaching and learning methods*. Further Education Unit. Oxford Polytechnic: Oxford.

Hart, E. a Bond, M. (1995) *Action Research for Health and Social Care: A Guide to Practitioners*. Buckingham: Open University Press.

James, A. (2008) *Research with Children: Perspectives and Practices*. 2<sup>nd</sup> ed. Routledge: Oxon.

Johnson, M. (2013) *Common Sense Education, Time on Task: Increase Focus & Productivity*. Ar gael: <https://www.teachingchannel.org/videos/time-limit-classroom-strategy>. Cyrchwyd ar 4ydd o Ebrill, 2018.

Kolb, D. A. a Fry, R. E. (1974). *Toward an applied theory of experiential learning*. MIT Alfred P. Sloan School of Management.

Kring, A., Johnson, S., Davison, G., Neale, J., Edelstyn, N. a Brown, D. (2013) *Learning and Behaviour Problems in Aspergers Syndrome*. New York: The Guildford Press.

Lemlech, K.J. (1988) *Classroom Management: Methods and Techniques for Elementary and Secondary Teachers* (second edition) New York: Longman.

Lincoln, Y.S. a Guba, G. (1985) *Naturalistic Inquiry*. London: Sage.

Lumsden, L.S. (1994). *Student motivation to learn* (ERIC Digest No. 92). Eugene, OR: ERIC Clearinghouse on Educational Management. (ERIC Document Reproduction Service No. ED 370 200)

Merrel, C. a Tymms, P. (2012) *Working with Difficult Children in Primary Schools A Guide for Teachers - 2nd Edition* A research-based guide for teachers, produced by CEM, Durham University

Mortimer, P., Sammons, P., Stoll, L., Lewis, D. a Ecob, R. (1988) *School Matters: The Junior Years*, London: Open Books.

Muijs, D., Harris, A., Chapman. C., Stoll.L a Russ.J. (2004) Improving Schools in Socio-Economically Disadvantaged Areas: An Overview of Research. *School Effectiveness and School Improvement*.

Nisbet, J.D. (1977) 'Small-scale research: guidelines and suggestions for development', *Scottish Educational Studies*.

Open University course E111 (1988) *Educational Evaluation*. Milton Keynes, Open University Educational Enterprises.

O'Reagan, F. (2010). Teaching Children with ADHD. *Cutting Edge Psychiatry in Practice*. Tud 76-80.

Scott, J., Brynin, M. a Smith, R. (1995) 'Interviewing children in the British Household Panel Study', in J.J. Hox *et al.* (eds) *Advances in Family Research*, Amsterdam: Thesis.

Senechal, D. (2014). *Republic of Noise: The Loss of Solitude in Schools and Culture*. R&L Education.

Sepsford, R.J. a Evans, J. (1984) 'Evaluating a research report' in Bell, J., Bush, T. and Fox, A. *et al.* (eds) *Conduction Small-scale Investigations in Educational Management*. London: Harper a Row. Adapted from material prepared for Open University course DE304, *Research Methods in the Social Sciences* (1979), Block 8, Part 1, tud. 9-22.

Skinner, E., a Belmont, M. (1991). *A longitudinal study of motivation in school: Reciprocal effects of teacher behavior and student engagement*. Unpublished manuscript, University of Rochester, Rochester, NY.

Spencer, J. a Flin, R. (1990) *The Evidence of Children*, London: Blackstone.

UWTSD. (2017). *Research Ethics and Integrity Code of Practice*. Ar gael: <http://www.uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/research/research-ethics-integrity-code-practice.pdf>. Cyrchwyd ar 4ydd o Ebrill, 2018.

Wallace, B., Fitton, S., Leyden, S., Montgomery, D., Pomerantz, M. a Winstanley, C. (2007) *Raising the Achievement of Able, Gifted, and Talented Pupils within an Inclusive School Framework: Guidelines for Schools to Audit and Extend Existing Best Practice*. Oxford: National Association for Able Children in Education.

Winstanley, C. (2004) *Too Clever by Half: a fair deal for gifted children*. Staffs: Stoke on Trent Trentham Books.

Wilson, E. (2009) *School-based Research: A guide for education students*. London: SAGE.

Wilson, G. (2008). *Help Your Boys Succeed the essential guide for parents*. London: Continuum International Pub. Group.

Wilson, G. (2016). *Four strategies to engage boys in literacy and close the gender gap*. Ar gael: <https://educationblog.oup.com/primary/engaging-boys-in-literacy>. Cyrchwyd ar: 3ydd o Ebrill, 2018.

Wragg, E.C. (1980) *Conducting and Analysis Interviews*. Rediguide 11. University of Nottingham School of Education.

**Atodiadau****Atodiad 1**

| Plentyn | Amser (munudau) | Mewnbyn athro | Disgwyliadau o'r dysgwr | Ie | Na | Cymorth roddwyd | Cyswllt gyda oedolion/dysgwyr eraill | Ymateb dysgwr i'r dasg | Gwendidadau/Anhawsterau | Sylwadau Ychwanegol |
|---------|-----------------|---------------|-------------------------|----|----|-----------------|--------------------------------------|------------------------|-------------------------|---------------------|
| 1       | 0 - 15          |               |                         |    |    |                 |                                      |                        |                         |                     |
|         | 15 - 30         |               |                         |    |    |                 |                                      |                        |                         |                     |
|         | 30 - 45         |               |                         |    |    |                 |                                      |                        |                         |                     |
|         | 45 - 60         |               |                         |    |    |                 |                                      |                        |                         |                     |
| 2       | 0 - 15          |               |                         |    |    |                 |                                      |                        |                         |                     |
|         | 15 - 30         |               |                         |    |    |                 |                                      |                        |                         |                     |
|         | 30 - 45         |               |                         |    |    |                 |                                      |                        |                         |                     |
|         | 45 - 60         |               |                         |    |    |                 |                                      |                        |                         |                     |
| 3       | 0 - 15          |               |                         |    |    |                 |                                      |                        |                         |                     |
|         | 15 - 30         |               |                         |    |    |                 |                                      |                        |                         |                     |
|         | 30 - 45         |               |                         |    |    |                 |                                      |                        |                         |                     |
|         | 45 - 60         |               |                         |    |    |                 |                                      |                        |                         |                     |

**Atodiad 2****Cwestiynau ymchwil – YAY**

1. Beth ddysgoch chi yn ystod y wers? Beth oedd eich hoff beth?
2. Sut oeddech yn teimlo am weithio at dargedau amser penodol?
3. Oedd yna digon o amser i chi bwrw eich targedau? Pam?
4. Wrth edrych yn ôl, ydych yn teimlo bod ansawdd eich gwaith yn well na arferol?
5. Hoffech chi weithio tuag at dargedau amser yn fwy aml mewn gwersi?

Atodiad 3

Model Beirniadau Wedi Adfyfyrio (BWA)

**Dyddiad:**

**Digwyddiad critigol (Ffocws):**

| Profiad                                                                                                                                                                       |                           |                                 |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------|---------------------------------|
| <p>Disgrifiad a theimladau</p> <p>Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?</p>                                                                                              |                           |                                 |
| <p>Cofio a Deall</p> <p>Allwch chi restru’r agweddau ar y profiad dysgu a aeth yn dda?</p> <p>Pa elfennau o’r profiad dysgu oedd yn siomedig?</p>                             | <p><u>Agweddau Da</u></p> | <p><u>Agweddau Siomedig</u></p> |
| <p>Gwerthuso a dadansoddi</p> <p>Beth fyddwch chi’n cadw’r un fath i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol yn y dyfodol?</p> <p>Beth oedd achos yr elfen siomedig bwysicaf?</p> |                           |                                 |
| <p>Casgliadau a chamau gweithredu</p> <p>Beth yw eich atebion posibl i’r materion siomedig a nodwyd?</p> <p>Beth ydych yn mynd i’w wneud nesaf?</p>                           |                           |                                 |
| Y profiad newydd                                                                                                                                                              |                           |                                 |

Atodiad 4**Taflen wybodaeth ar gyfer y plant**

Heddiw, rwy'n mynd i ddysgu gwers ar farddoniaeth i chi, a bydd [REDACTED] yn arsylwi ar y wers fel rhan o waith ymchwil. Yn ystod y wers, byddaf yn defnyddio amserydd ar y sgrîn. Nôd yr ymchwiliad yw i weld os bod cael amserydd yn eich helpu i gwblhau tasgau o fewn amser penodol neu beidio.

Ar ddiwedd y wers, bydd tri ohonoch yn dod i gael sgwrs gyda fi a bydd [REDACTED] yna'n cymryd nodiadau. Byddaf hefyd yn recordio'r sgwrs i'n helpu i gofio beth ydych chi'n dweud. Byddaf eisiau i chi ateb cwestiynau'n onest i esbonio wrthof beth oeddech yn hoffi am y wers, a sut oeddech yn teimlo am ddefnyddio'r amserydd yn ystod y wers.

Cyn dechrau, rwyf angen gwybod pwy sy'n hapus i fod yn rhan o'r ymchwiliad neu beidio. Peidiwch poeni os nad ydych eisiau bod yn rhan o'r ymchwiliad – bydd neb yn drist na'n grac os nad ydych am gymryd rhan. Lliwch yr wyneb trist ar y daflen os nad ydych eisiau cymryd rhan yn yr ymchwiliad.

Ond, os hoffech chi fod yn rhan, lliwch yr wyneb hapus ar y daflen sydd gyda chi nawr. Trwy gydol yr ymchwiliad, mae hawl gyda chi newid eich meddwl unrhyw bryd. Felly os nad ydych chi eisiau bod yn rhan o'r ymchwiliad yn ystod y wers, neu tra fy mod i'n gofyn cwestiynau ar y diwedd i'r grŵp ffocws, mae'n iawn i chi ddweud eich bod chi eisiau gadael a byddwch yn gallu gadael yn syth – ni fydd unrhywun yn cael stŵr am wneud hyn.

Nid oes angen i unrhywun boeni am hyn. Rwy'n gobeithio gallwn ni fwynhau'r wers gyda'n gilydd, a bydd eich atebion yn help mawr i fi gyda fy ngwaith ymchwil i.

Atodiad 5

Enw: \_\_\_\_\_

Dyddiad: \_\_\_\_\_

Ymchwiliad [REDACTED]

Lliwiwch y wyneb hapus yn wyrdd os ydych am gymryd rhan neu'r wyneb trist yn goch os nad ydych am gymryd rhan yn yr ymchwiliad.



Cofiwch! Mae hawl gennych i chi dynnu allan o'r ymchwiliad ar unrhyw amser! Peidiwch a phoeni!